

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #200 19 Hydref 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Ffocws ar Chwaraeon

Merched yn Tyfu Pêl-droed yng Ngholegau Cymru

Yn y treialon ar gyfer Carfan Ferched Pêl-droed Colegau Cymru ddydd Gwener diwethaf, 16 Hydref, bu 180 o chwaraewyr uchelgeisiol yn gobeithio dilyn talentau gorau y llynedd sydd wedi mynd ymlaen i gael eu dewis ar gyfer Sgwad Hŷn Pêl-droed Cymru. [Mwy>>>](#)

Academi Rygbi yn ennill statws Trwydded A

Mae Academi Rygbi Coleg Caerdydd a'r Fro yn mynd o nerth i nerth gyda phenodiad chwaraewr Gleision Caerdydd, Dan Fish, fel hyfforddwr, buddugoliaeth braf yn erbyn pencampwyr colegau y llynedd, a sicrhau statws Trwydded A. [Mwy>>>](#)

Academi Elit Pêl-droed yn cael llwyddiant cenedlaethol

Mae carfan gyntaf yr Academi Elit Pêl-droed a gynigir mewn partneriaeth â Chymdeithas Pêl-droed Cymru ac a leolir yng Ngholeg y Cymoedd ar gampws Ystrad Mynach yn dathlu llwyddiant ar lefel genedlaethol.

Mae pum aelod o'r academi wedi cynrychioli eu gwlad y mis hwn yng nghystadleuaeth i Ferched Dan 19 oed mewn trwrnameint yn erbyn Gwlad Belg, Croatia a Kazakhstan i gymhwyso yn nghystadleuaeth Ewrop.

Bydd dwy o'n dysgwyr hefyd yn rhan o'r sgwad Bêl-droed Merched o dan 17 a fydd yn mynd i wersyll hyfforddi rhyngwladol yr wythnos hon.

[Mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

O'r Coleg i Entrepreneur Rhyngwladol Addysg Awyr Agored

Mae Andrew Price, y pen busnes y tu ôl i Dryad Bushcraft, yn rhan o raglen Modelau Rôl Syniadau Mawr Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc gwrdd â phobl leol lwyddiannus o amrywiaeth o ddiwydiannau.

Gynt yn fyfyrwr y Celfyddydau Perfformio yng Ngholeg Gwyr Abertawe, dychwelodd i'r coleg yn ddiweddar i ysbrydoli myfyrwyr i feddwl yn entrepreneuriaid ac i weld y cysylltiadau creadigol yn y profiad awyr agored.

[Mwy>>>](#)

Cruising the the Mediterranean and the Caribbean as marine cadets

Teenagers Tom Warburton and Ben Moore, formerly Marine Engineering students at Grwp Llandrillo Menai's Rhos-on-Sea campus, who are both on three-year cadetships studying at Fleetwood Nautical College whilst training on cruise ships around the Mediterranean and the Caribbean, returned to their college recently to illuminate students on the vast array of career opportunities available within the sector.

[Mwy>>>](#)

Mordeithio Môr y Canoldir a'r Caribî fel cadetiaid morol

Daeth dau swyddog bwrdd llong, Tom Warburton a Ben Moore, fu gynt yn fyfyrwyr Peirianeg Forol Grwp Llandrillo Menai campws Llandrillo ac sydd yn awr yn astudio yng Ngholeg Forol Fleetwood dan hyfforddiant ar longau mordaith o amgylch y Môr Canoldir a'r Caribî, yn ol i'w coleg yn ddiweddar i oleuo myfyrwyr ar yr amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael o fewn y sector.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Prentis y Flwyddyn Cymru 2015, Ronia

Cafodd Ronia Griffiths o'r Grŵp o Golegau NPTC, sy'n brentis Peirianeg Sifil, ei henwi fel Prentis y Flwyddyn Cymru 2015 gan y Construction Industry Training Board (CITB).

[Mwy>>>](#)

Graddedigion AU 2015

Aeth myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe i seremoni graddio arbennig yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn y ddinas i ddathlu ennill eu cymwysterau addysg uwch a phroffesiynol.

[Mwy>>>](#)

Rownd Derfynol Gwobrau Prentisiaethau Cymru

Mae myfyrwraig o Goleg Sir Gâr, Saffron Tinnuche, sydd wedi gorchfygu trasiedi yn ei bywyd gan ennill y gobaith o gael swydd ei breuddwydion fel Redcoat gyda Butlins, yn y gystadleuaeth i ennill prif wobwr yng Ngwobrau

Prentisiaethau Cymru 2015.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr galwedigaethol yn llwyddo'n yr Eisteddfod

Dechreuodd grŵp o fyfyrwyr Gofal Plant o Goleg Gwent y tymor newydd gyda chyflwyniad o fedalau ar ôl iddynt ennill nifer o wobrau yng nghystadlaethau newydd yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

[Mwy>>>](#)

Cyfes o Wobrau i Fyfyrwyr Grwp o Golegau NPTC

Cafodd dau fyfyrwr o'r Grŵp o Golegau NPTC eu hanrhydeddu'n ddiweddar yn Swansea Bay Young Achiever 2015 Awards gyda Nation Hits. Cafodd prentis gosod brics Sam Shaw a Tom Cole, gynt yn fyfyrwr Teithio a Thwristiaeth yn y coleg, au gwobrwyo am eu cyflawniadau. [Mwy>>>](#)

Mae Isabelle Morgan sef myfyrwr yn yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant wedi derbyn Gwobr 2015 Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru. [Mwy>>>](#)

Colegau yn eu Cymunedau

Diwrnod Shwmae Sumae

Bu sawl coleg wrthi'n ddiwyd ar Ddiwrnod Shwmae Sumae yr wythnos diwethaf yn annog pawb i ddefnyddio eu sgiliau siarad Cymraeg a helpu dysgwyr i ddod yn fwy hyderus. Welwch y dolenni canlynol am enghreifftiau o'r gweithgareddau amryfal ar draws y wlad.

| [Coleg Sir Gar](#) | [Coleg Ceredigion](#) | [Golwg360](#)

Gŵyl Cwpan Rygbi'r Byd

Daeth mwy na 900 o blant i Academi Chwaraeon Llandarsi yr wythnos ddiwethaf i fwynhau diwrnod o weithgareddau rygbi yn yr ail o dair Gŵyl Cwpan Rygbi'r Byd.

Cafodd yr Wyl ei chefnogi gan dim o fyfyrwyr o Grŵp o Golegau NPTC.

<https://www.nptcgroup.ac.uk/cy/media/news/news-article.php?newsid=746>

Cyfleoedd Dysgu

Dosbarth meistr ar glyweliadau gan soprano fyd-enwog

Cafodd myfyrwyr Cerddoriaeth Safon Uwch yng Ngholeg Gŵyr Abertawe gyfle gwych yn ddiweddar i fwynhau dosbarth meistr gyda'r soprano fyd-enwog Eiddwen Harrhy.

<http://www.gcs.ac.uk/cy/news/soprano-yn-rhoi-dosbarth-meistr-ar-glyweliadau>

Dosbarth Meistr gan Farbwr y Flwyddyn

Daeth barbwr a enillodd wobrau lu i gampws Llandrillo-yn-Rhos y coleg yr wythnos ddiwethaf i gynnig dosbarth meistr i fyfyrwyr yr adran trin gwallt, yn ogystal â chyflogwyr a staff salonau trin gwallt ar draws gogledd Cymru.

<https://www.gllm.ac.uk/news/barber-of-the-year%E2%80%99s-masterclass-to-hairdressing-students/?LangType=1106>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB